

66% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Cymorthfeydd

CYNHALIWYD 20 CYMORTHFA

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

- Marchnata ac arallgyfeirio
- Cyfreithiol
- Cynllunio
- Cyfrifo ol-troed carbon
- Busnes

Mynychodd 72 o fusnesau o'r sector cig coch y cymorthfeydd uchod i edrych ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys strategaethau marchnata, caniatâd cynllunio, syniadau ar gyfer prosiectau arallgyfeirio, a sut i ddechrau cyfrifo eu hól troed carbon.

Rhwydwaith Arddangos

Pantyderi: Tyfu dwysfwyd protein ar gyfer pesgi gwartheg

Mae'r cnydau sy'n cael eu tyfu ar fferm Pantyderi yn cynhyrchu digon o egni starts i dyfu a phesgi'r 400 o wartheg biff ar y safle bob blwyddyn, ond roedd cymysgedd dwysfwyd protein 36% yn cael ei brynu i wneud iawn am y diffyg protein yn y ddog. Nod y prosiect hwn oedd treialu tyfu cnwd protein cartref y gellid ei gynaeafu trwy grimpio, a'i storio mewn clamp allanol yn barod i'w fwydo allan yn y gaeaf, i wella hunangynhaliath:

- Ar ôl ystyried sawl opsiwn, penderfynwyd cyd-dyfu pys a ffa; y manteision a nodwyd oedd fel a ganlyn:
- Mae tyfu'r cnydau gyda'i gilydd yn tueddu i gydamseru unrhyw wahaniaethau yn y rhywogaethau o ran amser aeddfedu.
- Mae arbrofion wedi dangos bod cnydau cymysg yn tueddu i gynhyrchu mwy na chnydau a dyfir ar eu pen eu hunain
- Mae'r pys yn llenwi'r bylchau aer rhwng maint gronynnau mwy y ffa yn y clamp wedi'i grimpio, ac yn helpu i greu'r amodau anaerobig gofynnol
- Caiff allbwn a maint yr elw fesur hectar eu gwella

Heb unrhyw enghreifftiau blaenorol o'r ddau gnwd hwn yn cael eu tyfu o'r blaen, roedd rhaid gweithio drwy brofi a methu. Yn dilyn aredig, trin y tir a chwalu calch a thail, cafodd cae 8ha sy'n draenio'n rhydd ei ddrilio mewn dau gam ar 22 Ebrill, gyda'r ffa yn cael eu hau yn gyntaf ar ddyfnder o 75mm, ac yn a'r pys ar ddyfnder o 50mm. Cafodd y cnydau eu cynaeafu pan oeddent yn cynnwys 30-35% o leithder.

Lluniwyd dognau ar gyfer gwartheg biff â'r un egni a phrotein â dietau'r gaeaf blaenorol, a dangosir yr arbedion costau ar gyfer bwydo'r pys a'r ffa isod.

	Dogn tyfu		Dogn pesgi rasion	
Blwyddyn	2020	2021	2020	2021
Cost/pen/dydd £	1.35	1.29	2.39	2.18
Arbedion costau £*	1,800		3,788	

Ffigur 1. Tabl yn dangos yr arbedion costau ar gyfer bwydo'r pys a'r ffa.

*Arbedion costau yn seiliedig ar 200 o wartheg yn cael eu bwydo am 5 mis ar y dogn tyfu a 3 mis ar y dogn pesgi.

Mae'r ffermwyr yn hapus iawn gyda'r canlyniadau, ac mae'r prosiect wedi bod o ddiddordeb mawr i ffermwyr ledled y wlad.

Fferm Forest Coalpit: Pa effaith gaiff diet gwahanol ar ansawdd porc?

Yn 2021, sefydlodd Cyswllt Ffermio, Menter Moch Cymru a Forest Coalpit Farm arbrawf i gymharu ansawdd cig moch wedi'u pesgi mewn llain llawn porthiant gyda moch wedi'u pesgi mewn llain foel. Roedd proffil asid brasterog y porc a gynhyrchwyd o ddiddordeb arbennig.

Casgliadau:

Asid linolenig oedd yr asid brasterog yr effeithiwyd arno fwyaf drwy ychwanegu porthiant. Cyfeirir ato weithiau fel asid α-Linolenig (ALA), ac mae'n asid brasterog hanfodol n-3 neu asid brasterog hanfodol omega-3. Mae bwyta cynnyrch sy'n cynnwys ALA yn dod â llawer o fuddion i bobl (atal trawiad ar y galon, gostwng pwysedd gwaed uchel, lleihau colesterol, gwrthdroi caledu yn y pibellau gwaed). Yr unig ffordd y gall pobl gael asid α-Linolenig yw trwy eu deiet, oherwydd mae diffyg yr ensymau desaturas 12- a 15- gofynnol yn golygu ei bod yn amhosibl syntheseiddio asid stearig o'r newydd. At hyn, ni all moch syntheseiddio ALA, felly mae'r gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau triniaeth yn ganlyniad uniongyrchol i ychwanegu porthiant i'r deiet.

Mae astudiaethau yn dangos bod modd gwneud cig moch yn fwyd swyddogaethol sy'n cynnwys omega-3 ac omega-6, drwy addasu'r porthiant (hynny yw, drwy ychwanegu olew pysgod/planhigion/hadau). Byddai'n ddiddorol gweld a all yr holl leiniau porthiant newid swyddogaeth y cig ymhellach.

Gweminarau

CYNHALIWYD 7 GWEMINAR GYDA THEMÂU CIG COCH gyda **116 O FNYCHWYR**

Enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd:

Rheoli llyngyr yn gynaliadawy mewn defaid a gwartheg

Siediau moch ar gyfer iechyd a lles da

Awgrymiadau gwych ar gyfer bwydo'ch gwartheg biff dros y gaeaf

Digwyddiadau fferm y Rhwydwaith Arddangos

10 DIGWYDDIAD gyda **236 O FNYCHWYR**

Diwrnod Agored Safle Arddangos Moelogan Fawr

Sut i adnabod, rheoli a chael gwared ar glefydua rhewfryn mewn defaid

Diweddariad ar safle arddangos Rhiwaedog

Rhaglen fentora

15 O FFERMWYR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

599 O FFERMWYR CIG COCH YN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

Roedd mentai newydd yn chwilio am gyngor ar amrywiaeth o wahanol bynciau gan gynnwys:

- Isadeiledd ar fferm
- Cofnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)
- Iechyd a diogelwch ar fferm

Cliciwch yma i agor y Cyfeiriadur Mentoriaid.




Targedur defnydd o anthelmintigau mewn defaid


Mae'r prosiect EIP Cymru hwn yn ymchwilio i'r cysylltiad posibl rhwng cyfrif wyau ysgarthol(FEC) uwch â'r mamogiaid hynny sy'n colli sgôr cyflwr corff (BCS) o gwmpas amser wyna, pan fyddant dan straen o ran maeth. Mae'r gwanhau sy'n digwydd i'r system imiwneidd oherwydd hynny yn arwain at yr hyn a elwir yn gynydd cyn esgor (PPR) ar gynhyrchu wyau gan lyngyr ym mherfedd y famog. Mae'r wyau hyn, pan gânt eu hysgarthu ar borfa, yn datblygu yn larfa ac yn creu perygl llyngyr i'r wryn yn hwyrach yn y tymor.

Yn ôl yr arbenigwraig defaid annibynnol, Lesley Stubbings, mae'r canlyniadau cychwynnol o'r data a gasglwyd ar y prosiect yn awgrymu, pan fydd mamogiaid yn colli cyflwr corff cyn wyna, fod y cynnydd cyn esgor yn gynharach; i'r gwrthwyneb, ar ffermydd lle mae'r mamogiaid yn colli cyflwr corff wrth laetha, mae'r cynnydd cyn esgor yn digwydd ar ôl wyna.

"Mae'r amrywiadau yn y canlyniadau cynnar yn dynodi bod cyfle anferth i nid yn unig leihau'r nifer o famogiaid sy'n cael eu trin ar y ffermydd hyn (cyn belled â'n bod yn gallu eu dynodi mewn ffordd ymarferol y gellir ei hailadrodd), ond hefyd i amseru'r triniaethau a roddir i gael yr effaith mwyaf," meddai Ms Stubbings.



Ffigwr 2. Fferm 1 – Anterth yr wyau yn digwydd cyn wyna. Rhoddwyd triniaeth i'r mamogiaid oedd yn colli cyflwr hyd at wyna (50% o'r criw). Yna cadwodd y cyfrif wyau yn isel ar gyfer y criw cyfan.



Ffigwr 3. Fferm 2 – Anterth yr wyau ddim yn digwydd tan ar ôl wyna, pan fydd y colli cyflwr corff yn dueddol o ddigwydd wrth i famogiaid sy'n cario efeiliaid fod dan bwysau o ran porfa.

Mae'r prosiect yn ceisio ynysu ffactorau i adnabod mamogiaid sy'n cynhyrchu llawer o wyau, er mwyn i'r gyfran sy'n cael eu trin o gwmpas amser wyna gael ei gadw cyn lleied â phosibl heb effeithio ar berfformiad yr wryn.

Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth;

- DEFNYDDIO SEMEN Â'R RHYW WEDI EI BENNU A THECHNOLEGAU GENYNNOL I WELLA BUCHESI LLAETH A BÎFF
- A YW PRYNU BUAIL YN WELL NA BÎFF? – DEWIS GWAHANOL O ANIFEILIAID I'R DEYRNAS UNEDIG
- CYFLWYNO DEFAID CYNFFON DEW I GYMRU

Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol

Cynhaliwyd 4 digwyddiad, gyda 42 o fynychwyr

Roedd y brif bynciau'n cynnwys:

Croesawu technoleg a hyfforddiant i fynd i'r afael ag ymrwethed gwrthficrobaidd

Gweithdy Llygredd Amaethyddol

Sicrhau eich busnes fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – a yw menter ar y cyd yn opsiwn?

*Mae themâu digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol yn aml yn draws-sectoraidd, ac maent yn tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y sector cig coch.

Grwpiau trafod



72 CYFARFOD GRŴP CIG COCH

gyda



479 O FYNICHWYR

Astudiaeth achos

Grŵp Defaid Mynydd Cymreig y De

Enillodd Matt Smith wobwr Ffermwr Defaid y flwyddyn y Farmers Weekly yn 2017, a chyrrhaeddodd rownd olaf Gwobrau Ffermwr Prydain yn y categori Arloeswr Defaid y Flwyddyn yn 2021. Cafodd Matt ei wahodd i siarad â'r grŵp am ei system ffermio yng Nghernyw, a'r newidiadau a gyflwynwyd i'r busnes ers iddo ddechrau gweithio ar fferm deuluol ei wraig, Pippa.

Cafodd Matt ei fagu yn Seland Newydd a bu'n cneifio ar draws y byd am 14 blynedd, cyn ymsefydlu yng Nghernyw gyda'i wraig ac ehangu nifer y defaid, yn ogystal â chyflwyno ceirw i'r fenter ffermio. Ar hyn o bryd, mae Matt a'i wraig yn ffermio tua 1,100 o famogiaid bridio, ynghyd â'r 700 o geirw bridio.

Dywedodd Matt wrth y grŵp mai statws iechyd uchel ei ddiadell yw ei brif flaenoriaeth, ac mae unrhyw anifail sy'n tangyflawni neu'n dangos problemau iechyd yn cael ei ddifa. Mae'n bridio er mwyn sicrhau gwydnwch, ac mae wedi bod yn gysylltiedig â phrosiect sy'n edrych ar ymrwethed anthelmintig yn y sector defaid ers tua saith mlynedd.


Esbonidd Matt ei fod wedi gweithio'n agos iawn gyda'r ymgynghorydd tir glas James Daniels o gwmni Precision Grazing, i gynyddu cyfanswm y porthiant o ansawdd uchel ar gyfer ei systemau defaid a cheirw.

Yn ddiweddar, mae'r busnes wedi buddsoddi mewn lladd-dy ac offer prosesu ar y fferm, gan eu bod yn gwerthu'n uniongyrchol i'r sector adwerthu a defnyddwyr. Fodd bynnag, mae anfanteision yn gysylltiedig â hyn, oherwydd gall cybwysedd y carcass fod yn broblem. Mae cynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes wedi bod o gymorth mawr wrth brynu toriadau cig amhoblogaidd.

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd, 253 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector cig coch.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Enw'r Cwrs	Busnes	Tir	Da byw	Cyfanswm
DDIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)			28	28
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel			16	16
Sgario defaid			15	15
Trimio traed gwartheg			15	15
Cadw llyfrau	13			13
Rheoli Llygod ar Ffermydd			12	12
Defnyddio meddyginiaethau milfeddygol mewn modd diogel			11	11
Dyfarniad Lefel 2 mewn defnyddio plaladdwyr yn ddiogel (PA1) a gwasgaru plaladdwyr yn ddiogel gan ddefnyddio offer llaw (PA6)		11		11
Dyfarniad Lefel 2 mewn defnyddio plaladdwyr yn ddiogel (PA1) a defnyddio plaladdwyr gan ddefnyddio offer chwistrellu bwm wedi'i osod ar gerbyd (PA2)		10		10

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn y cyfnod hwn:

SYSTEMAU PORI	MASTITIS MEWN GWARTHEG
ATGENHEDLU TYMHOROL MEWN MAMOGIAID	ELFENNAU HYBRIN MEWN DEFAID

Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

